# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Uwchradd Y Rhyl

Dyddiad yr arolygiad: 05/05/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Uwchradd Y Rhyl yn gymuned ofalgar a chynhwysol ble mae staff yn rhoi pwyslais cryf ar gefnogi lles disgyblion. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt gan staff. Mae'r ysgol yn darparu cymorth bugeiliol a lles helaeth, yn cynnwys darpariaeth arbenigol fuddiol ar gyfer disgyblion bregus a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae disgyblion yn elwa ar drefniadau pontio cynhwysfawr, arweiniad defnyddiol ar yrfaoedd ac ystod werthfawr o weithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau addysgol. Mae gan arweinwyr gysylltiadau cryf â'r gymuned ehangach ac maent yn hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant yn briodol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol, o leiaf, yn eu dysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn ymgysylltu'n barchus mewn gwersi. Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn sefydlu perthnasoedd gwaith pwrpasol â disgyblion ac yn defnyddio trefniadau dosbarth, esboniadau a holi addas i gefnogi dysgu. Lle mae'r addysgu ar ei gryfaf, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau yn ofalus, yn defnyddio modelu yn fedrus ac yn holi cwestiynau sy'n annog disgyblion i feddwl yn ddwysach. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn darparu her ddigonol nac yn addasu dysgu yn ddigon da i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn rhy oddefgar ac yn gwneud cynnydd mwy cyfyngedig. Yn ychwanegol, mae ansawdd yr adborth yn anghyson ac nid yw bob amser yn cynorthwyo disgyblion yn ddigon da i wella'u gwaith.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang, gan gynnwys cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddilyn ystod o lwybrau galwedigaethol trwy waith yr ysgol gyda phartneriaid allanol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn cynllunio'n ddigon strategol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn gynyddol ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae gormod o ddisgyblion nad ydynt yn datblygu eu medrau darllen, ysgrifennu, siarad a rhifedd yn ddigon da. Mae presenoldeb yn gwella'n raddol ac mae staff yn gweithio'n bwrpasol gyda disgyblion a theuluoedd, er bod presenoldeb a chyfraddau absenoldeb parhaus yn destun pryder o hyd.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddiben moesol cryf. Mae arweinwyr yn gweithio'n hynod effeithiol i gefnogi lles disgyblion. Mae uwch arweinwyr wedi dechrau blaenoriaethu gwelliannau mewn addysgu a deilliannau disgyblion ar fwy o frys, ac maent yn cryfhau dysgu proffesiynol a phrosesau hunanwerthuso. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn canolbwyntio'n ddigon craff ar effaith yr addysgu ar gynnydd a medrau disgyblion, ac mae diffyg manwl gywirdeb i gynllunio gwelliant yn y maes hwn. Yn ychwanegol, nid yw uwch arweinwyr yn dwyn arweinwyr canol i gyfrif yn ddigon cyson am ansawdd ac effaith eu gwaith.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud pump argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Gwella ansawdd yr addysgu fel bod disgyblion o bob gallu yn gwneud cynnydd da

A2 Cryfhau arweinyddiaeth o ran datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn gynyddol, a'r ddarpariaeth ar ei gyfer

A3 Gwella presenoldeb

A4 Cryfhau arweinyddiaeth strategol ac atebolrwydd ar bob lefel, yn enwedig o ran addysgu a dysgu

A5 Mireinio hunanwerthuso a chynllunio gwelliant fel bod arweinwyr ar bob lefel yn canolbwyntio'n fanwl gywir ar effaith yr addysgu ar gynnydd a medrau disgyblion

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/07/2026